Mumbles Community Council

# Minutes of the Monthly Meeting of Mumbles Community Council held on 14 November 2023 at 6.30 pm (Hybrid Meeting at the Ostreme Centre and via Teams)

**Members Present:** Cllrs Martin O'Neill (Chair), Will Thomas (Vice-Chair), Rob Marshall, Francesca O'Brien, Rhian Evans, Richard Jarvis, Ian Scott, Rebecca Fogarty, Sara Keeton, Carrie Townsend Jones, Emilia Cox, Rebecca Fogarty, Phil Keeton Angela O'Connor, Tim Zhou, Emilia Cox and Helen Nelson

**Officers Present**: Kerry Grabham – Clerk and Ian Hughes - Committee Support Officer (CSO)

**CO2311-01** **Apologies for Absence**

Cllrs Pamela Erasmus and Michael Parkin.

**CO2311-02** **Declarations of Interest**

There were no declarations of interest.

**CO2311-03** **Public Participation**

Two members of the public were present at the meeting, but no representations were made. Cllr Rhian Evans joined the meeting at 6.34pm This incorrect 2 members of the public were admitted at about 7pm.

**CO2311-04** **Outcome of Complaint Submitted by Cllr R Marshall.**

The Clerk, Kerry Grabham read out the report prepared in relation to the complaint submitted by Cllr Rob Marshall, which included recommendations concerning a review of practices and procedures relating to the conduct of councillors.

**RESOLVED** to approve the recommendations in the above report concerning practices and procedures relating to the conduct of councillors.

**CO2311-05** **To Approve the Minutes of the Full Council Meeting held on the 10th of October 2023.**

**RESOLVED** to approve the minutes of the meeting held on 10th October 2023 as a true record.

**CO2311-06** **Clerk's Report**

The Clerk read out a draft press statement relating to proposed permanent security locking gate for Langland Tennis Court together with details of hiring fees. In answer to questions from councillors The Clerk confirmed that bilingual signs will be displayed at the court. In addition, The Clerk confirmed that the locking and hiring procedures only apply to the tennis courts and that the

basketball court will be unaffected, there was also a discussion over whether the individual tennis courts should be named after local notable tennis players.

**RESOLVED** to agree to the wording of the press release.

**CO2311-07** **Chair's Report**

The Chair, Cllr O'Neill read out his report which focused on a recent discipline/complaint hearing at which he gave evidence. This process proved enlightening to the chair who outlined the need for policy and procedures in relation to discipline to be reviewed as agreed at agenda item **CO2311-04.** Additionally, the chair again requested that Councillors direct requests for officers to carry out assignments through the Clerk and not approach the officer in question directly.

Cllr Martin Jarvis left the meeting at 7.04pm

**RESOLVED** to note the report.

**CO2311-08** **Financial Reports for November**

Financial reports prepared by RFO Paul Beynon had previously been provided to councillors, the Clerk in the RFO absence outlined key elements of these reports. There were no questions from Councillors' concerning the reports.

**RESOLVED** to retrospectively approve payments and urgent payments as made by the RFO and to approve the budget monitoring report to 30th September 2023.

**CO2311-09** **Footpaths Underhill Park – Cllr Will Thomas – supporting documents attached.**

Cllr. Will Thomas outlined that he had received a number of complaints (including the head of Oystermouth Primary School and a yoga instructor) concerning the footpaths adjacent to the new all-weather pitch at Underhill. In particular the path leading from the new path running alongside the pitch to the car park area. In addition, the need for lighting along this path was raised. Cllr Thomas made the point that Underhill has a state-of-the-art all-weather pitch together a new hub complex but a dilapidated adjoining footpath leading to the car park. Due to the contractors still being 'on-site' a reduced quote of £14,00 had been provided to upgrade the paths in question. Additionally, Cllr Thomas estimated that the cost of providing lighting would be £5,000. Should a quote be requested following the departure of the contractors it is likely to be considerably more. Cllr Thomas offered to provide £500 from his personal allowance, as did Cllr Rob Marshall reducing the sum required to £13,000.

A discussion ensued and Cllr Thomas addressed the following points: -

- The original budgeting costs did not include the path(s) between the all-weather pitch and car park. This will need to be confirmed, **ACTION** to Cllr Thomas to do so.

- Cllr Thomas outlined that following complaints he visited Underhill Park and discussed the concerns with a MCA representative. Cllr Thomas established that whilst there were plans to upgrade the paths this would not be for some years due to financial restraints. Cllr Thomas stressed that the idea of requesting a £14,000 had been entirely at his instigation. He believed that MCA had no money for this additional work and that it would not be carried out without the grant.
- Cllr Thomas whilst accepting that a great deal of money had already been spent on Underhill Park believed that this benefited the whole of the community within MCC and beyond.
- Cllr Thomas agreed to explore the options of using SCC Councillor budgets to fund additional costs such as lighting. In addition **(ACTION)** to obtain quotes for lighting.
- In answer to Cllr Ian Scott's suggestion to leave the floodlights on following training sessions to assist with lighting, Cllr Thomas agreed to consult with MCA (**ACTION**)
- Cllr Ian Scott also indicated a willingness to contribute towards the cost from his personal allowance.

Cllrs Angela O'Connor and Francesca O'Brien left the meeting at 7.25pm

**RESOLVED** to approve the spending of up to £13,000 from the Contingency Budget. A contribution of £500 being made from the personal allowances of Cllrs Thomas and Marshall.

**CO2311-10** **Go Underhill Grant – Final Drawdown**

A final payment of £238,208.45 required to be paid in relation to Underhill Re-development. The surveyors have approved the work carried out.

**RESOLVED** to approve the spending of the final payment of £238,208.45

**CO2311-11** **Cllr Renumeration Policy**

The Chair outlined key points from the yearly renumeration policy following a review. The following points from the report were discussed and voted upon:-

- 3.3 Council is asked to decide whether the payment of £52 per councillor is to be made or whether the full reimbursement of costs is to be made. **RESOLVED** to approve the above renumeration.
- 4.4 Council is asked to confirm that the Chair of each Committee mentioned above are to receive the £500 Senior Role payment and whether the additional 3 Senior Role payments permitted are to be allocated in 2023/24 and indicate who else is to receive the payment. **RESOLVED** to approve the above renumeration.
- 5.6 Council is asked to confirm that the option to pay Travel and Subsistence costs is to be approved for 2023/24. **RESOLVED** to approve the above renumeration.

- 6.3 Council is asked to confirm that the option to pay Financial Loss Compensation is to be approved for 2023/24. **RESOLVED** to approve the above renumeration.
- 8.4 Council is asked to confirm that the option to make a payment of £1,500 to the Chair and £500 to the Vice Chair is to be approved for 2023/24. **RESOLVED** to approve the above renumeration.
- 9.3 Council is asked to consider whether it wishes to introduce attendance allowance and make a recommendation to Council. The RFO will then develop a scheme for approval should Council support the introduction of attendance allowance. **RESOLVED** not to approve the above renumeration at the present time but to be given future consideration.

**CO2311-12** **Virement request to vire £250 from Floral Displays to Communities Events for Newton Christmas Party.**

Following a discussion, it was proposed that each of the four wards receive £250 towards Christmas parties. The money being provided from an underspend in the Floral Displays Budget

**RESOLVED** to approve a vire of £1000 from The Floral Displays to the four wards (£250 each) for the purpose of contributing towards Christmas Parties.

Cllr. Emelia Cox left the meeting at 8.05pm

**CO2311-13** **To consider Grant Application – Mumbles Traders Association – Christmas Trees**

A discussion took place on the budget (SLA) provided for Mumbles Traders and why a request for Christmas Trees was made at such short notice before Christmas. There was also some uncertainty over the precise amount of money requested due to an underspend within the budget.

**RESOLVED** To delegate the payment of a grant for Christmas Trees to The Clerk. The Councillors also resolved that a receipt/invoice be produced for the trees and that a greater breakdown of expenditure be provided by Mumbles Traders in the future.

**CO2311-20** **Questions for the Chair of the Culture, Tourism, and Communications Committee**

Due to Cllr. Rob Marshall needing to leave the meeting, agenda item number **CO2311-20** was brought forward to provide the opportunity for questions to be asked of him. No questions were asked and Cllr. Marshall left the meeting at 8.16pm

**CO2311-14** **To Recommendations from Skatepark Steering Group**

The discussion concerning recommendations about Mumbles Skatepark were suspended pending the exclusion of the press and public due to the commercial sensitivity of the items in question.

Upon the exclusion of the press and public the discussion concluded.

**RESOLVED** to approve the recommendations of The Skatepark Steering Group.

**CO2311-15** **Recommendation from Ostreme Centre Working Group – Kerry Grabham**

Again the discussion concerning The Ostreme Centre Working Group's recommendations were suspended pending the exclusion of the press and public due to the commercial sensitivity of the items in question.

Upon the exclusion of the press and public the discussion concluded.

**RESOLVED** To approve the recommendations of The Ostreme Centre Working Group.

**CO2311-16** **Recommendation from Environmental Committee – Report attached.**

**Recommended** that following the Environmental Committee meeting held on the 23rd October 2023, Councillors consider the virement suggested by the RFO to cover overspends.

**RESOLVED** to agree to the above recommendation as outlined in the report presented.

**CO2311-17** **Recommendations from Finance & Compliance Committee – Report attached.**

**Recommended** that following the Finance and Compliance Committee held on 16 October 2023, Councillors consider the following recommendations:-

1. **RECOMMENDED:** that the current practice of making payments by Direct Devit and Standing Order by The RFO be approved at Full Council for a further 12 months.
2. **RECOMMENDED:** that that a grant for £1,150 be provided to Mumbles Netball to assist with court fees for Yr 6 and Yr 8 participants.
3. **RECOMMENDED** that a grant of £425 be made to Sunday Tea to assist in the prevention of elderly people from becoming isolated.

**RESOLVED** to agree to the above recommendation.

**CO2311-18** **To elect the following member to the following committee**

**Cllr Dr M O'Neill – Environmental Committee.**

It was proposed that Cllr O'Neill be elected to the Environmental Committee.

**RESOLVED** to agree to the above proposal.

**CO2311-19** **Questions for the Chair of the Community Social Development Committee**

No questions were asked.

**CO2311-20** **Questions for the Chair of the Culture, Tourism, and Communications Committee**

This agenda item was addressed after agenda item **CO2311-13**

**CO2311-21** **Questions for the Chair of the Environmental Committee**

No questions were asked.

**CO2311-22** **Questions for the Chair of the Finance & Compliance Committee**

No questions were asked.

**CO2311-23**

**Exclusion of Press and Public**

In accordance with the provisions of the Public Bodies (Admission to Meetings) Act 1960, it is proposed that the press and public be excluded from the following items of business due to the confidential nature of the business to be transacted.

**RESOLVED** that due to the confidential nature of the business to be discussed, the press and public be excluded from the meeting.

**Standing Orders suspended at 8.30pm to allow the meeting to continue beyond 2 hours.**

**CO2311-24**

**To Approve Recommendations made by The Personnel Committee**

Discussion took place regarding recommendations made by The Personnel Committee.

**RESOLVED** to approve recommendations made by The Personnel Committee

The meeting ended at 8.44pm

# Cofnodion Cyfarfod Misol
# Cyngor Cymuned y Mwmbwls
# a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd 2023 am 6.30 pm
# (Cyfarfod hybrid yng Nghanolfan Ostreme a thrwy gyfrwng Teams)

**Yr aelodau yn bresennol:** Y Cynghorwyr Martin O'Neill (Cadeirydd), Will Thomas (Is-gadeirydd), Rob Marshall, Francesca O'Brien, Rhian Evans, Richard Jarvis, Ian Scott, Rebecca Fogarty, Sara Keeton, Carrie Townsend Jones, Emilie Cox, Rebecca Fogarty, Phil Keeton, Angela O'Connor, Tim Zhou, Emilia Cox a Helen Nelson

**Y swyddogion yn bresennol**: Kerry Grabham, Clerc, ac Ian Hughes, Swyddog Cymorth Pwyllgorau

**CO2311-01** **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorwyr Pamela Erasmus a Michael Parkin.

**CO2311-02** **Datganiadau o fuddiant**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

**CO2311-03** **Cyfranogiad y cyhoedd**

Roedd dau aelod o'r cyhoedd yn bresennol yn y cyfarfod, ond ni chafwyd unrhyw sylwadau. Ymunodd y Cynghorydd Rhian Evans â'r cyfarfod am 6.34pm. Mae hyn yn anghywir – derbyniwyd dau aelod o'r cyhoedd tua 7pm.

**CO2311-04** **Canlyniad y gŵyn a gyflwynwyd gan y Cynghorydd R Marshall**

Darllenodd y Clerc, Kerry Grabham, yr adroddiad a baratowyd mewn perthynas â'r gŵyn a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Rob Marshall, a oedd yn cynnwys argymhellion ynghylch adolygiad o arferion a gweithdrefnau yn ymwneud ag ymddygiad cynghorwyr.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad uchod ynghylch arferion a gweithdrefnau yn ymwneud ag ymddygiad cynghorwyr.

**CO2311-05** **Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y cyngor llawn a gynhaliwyd ar 10 Hydref 2023**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Hydref 2023 fel cofnod gwir.

**CO2311-06** **Adroddiad y Clerc**

Darllenodd y Clerc ddatganiad drafft i'r wasg yn ymwneud â giât ddiogelwch barhaol arfaethedig sy'n cloi ar gyfer Cyrtiau Tennis Langland, ynghyd â manylion ffioedd llogi. Mewn ymateb i gwestiynau gan gynghorwyr, cadarnhaodd y Clerc y bydd arwyddion dwyieithog yn cael eu harddangos yn y cwrt. Yn ogystal, cadarnhaodd y Clerc mai dim ond i'r cyrtiau tennis y mae'r gweithdrefnau cloi a llogi yn berthnasol ac na fydd y cwrt pêl-fasged yn cael ei effeithio. Cafwyd trafodaeth hefyd am a ddylai'r cyrtiau tennis unigol gael eu henwi ar ôl chwaraewyr tennis nodedig lleol.

**CO2311-07** **PENDERFYNWYD** cytuno i eiriad y datganiad i'r wasg.

**Adroddiad y Cadeirydd**

Darllenodd y Cadeirydd, y Cynghorydd O'Neill, ei adroddiad, a oedd yn canolbwyntio ar wrandawiad disgyblaeth/cwyn diweddar lle rhoddodd dystiolaeth. Bu'r broses hon yn ddadlennol i'r Cadeirydd, a amlinellodd yr angen i adolygu polisi a gweithdrefnau mewn perthynas â disgyblaeth fel y cytunwyd ar eitem **CO2311-04** ar yr agenda.

Yn ogystal, gofynnodd y Cadeirydd eto i'r cynghorwyr gyfeirio ceisiadau i swyddogion gyflawni aseiniadau drwy'r Clerc a pheidio â mynd at y swyddog dan sylw yn uniongyrchol.

Gadawodd y Cynghorydd Martin Jarvis y cyfarfod am 7.04pm.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

## CO2311-08 Adroddiadau Ariannol ar gyfer mis Tachwedd

Roedd adroddiadau ariannol a baratowyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol Paul Beynon eisoes wedi'u darparu i'r cynghorwyr, ac yn absenoldeb y Swyddog Ariannol Cyfrifol amlinellodd y Clerc elfennau allweddol o'r adroddiadau hyn. Nid oedd unrhyw gwestiynau gan y cynghorwyr ynghylch yr adroddiadau.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo taliadau a thaliadau brys yn ôl-weithredol fel y'u gwnaed gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol a chymeradwyo adroddiad monitro'r gyllideb hyd at 30 Medi 2023.

## CO2311-09 Llwybrau Troed Parc Underhill – Y Cynghorydd Will Thomas – dogfennau ategol ynghlwm

Ammlinellodd y Cynghorydd Will Thomas ei fod wedi derbyn nifer o gwynion (gan gynnwys gan bennaeth Ysgol Gynradd Ystumllwynarth a hyfforddwr yoga) ynghylch y llwybrau troed ger y maes chwarae pob tywydd newydd yn Underhill. Yn benodol, y llwybr sy'n arwain o'r llwybr newydd ochr yn ochr â'r cae i'r maes parcio. Yn ogystal, codwyd yr angen am oleuadau ar hyd y llwybr hwn. Nododd y Cynghorydd Thomas fod gan Underhill faes chwarae pob tywydd o'r radd flaenaf ynghyd â chanolfan newydd ond bod llwybr troed adfeiliedig cyfagos yn arwain at y maes parcio. Oherwydd bod y contractwyr yn dal i fod 'ar y safle', darparwyd dyfynbris gostyngol o £14,00 i uwchraddio'r llwybrau dan sylw. Yn ogystal, amcangyfrifodd y Cynghorydd Thomas y byddai'r gost o ddarparu goleuadau yn £5,000. Os gofynnir am ddyfynbris yn dilyn ymadawiad y

contractwyr, mae'n debygol o fod yn llawer mwy. Cynigiodd y Cynghorydd Thomas ddarparu £500 o'i lwfans personol, ac felly hefyd y Cynghorydd Rob Marshall, gan leihau'r swm angenrheidiol i £13,000.

Cafwyd trafodaeth a rhoddodd y Cynghorydd Thomas sylw i'r pwyntiau a ganlyn: -

- Nid oedd y costau cyllidebu gwreiddiol yn cynnwys y llwybr(au) rhwng y maes chwarae pob tywydd a'r maes parcio. Bydd angen cadarnhau hyn ac mae hyn yn **GAM GWEITHREDU** ar gyfer y Cynghorydd Thomas.
- Amlinellodd y Cynghorydd Thomas ei fod wedi ymweld â Pharc Underhill yn dilyn cwynion ac wedi trafod y pryderon gyda chynrychiolydd o Gymdeithas Gymunedol y Mwmbwls. Sefydlodd y Cynghorydd Thomas er bod cynlluniau i uwchraddio'r llwybrau na fyddai hyn am rai blynyddoedd oherwydd cyfyngiadau ariannol. Pwysleisiodd y Cynghorydd Thomas mai ei syniad ef yn gyfan gwbl oedd gofyn am £14,000. Credai nad oedd gan Gymdeithas Gymunedol y Mwmbwls arian ar gyfer y gwaith ychwanegol hwn ac na fyddai'n cael ei wneud heb y grant.
- Er bod y Cynghorydd Thomas yn derbyn bod llawer iawn o arian eisoes wedi'i wario ar Barc Underhill, credai fod hyn o fudd i'r gymuned gyfan o fewn Cyngor Cymuned y Mwmbwls a thu hwnt.
- Cytunodd y Cynghorydd Thomas i archwilio'r opsiynau o ddefnyddio cyllidebau cynghorwyr Cyngor Dinas a Sir Abertawe i ariannu costau ychwanegol megis goleuo. Yn ychwanegol **(CAM GWEITHREDU**) i gael dyfynbrisiau ar gyfer goleuadau.
- Mewn ymateb i awgrym y Cynghorydd Ian Scott i adael y llifoleuadau ymlaen yn dilyn sesiynau hyfforddi i gynorthwyo gyda goleuo, cytunodd y Cynghorydd Thomas i ymgynghori gyda Chymdeithas Gymunedol y Mwmbwls (**CAM GWEITHREDU**).
- Nododd y Cynghorydd Ian Scott hefyd ei barodrwydd i gyfrannu at y gost o'i lwfans personol.

Gadawodd y Cynghorydd Angela O'Connor a'r Cynghorydd Francesca O'Brien y cyfarfod am 7.25pm.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo gwario hyd at £13,000 o'r Gyllideb Wrth Gefn. Byddai cyfraniad o £500 yn cael ei wneud o lwfansau personol y Cynghorwyr Thomas a Marshall.

**CO2311-10** **Grant Go Underhill – Y Taliad Terfynol**

Roedd angen talu taliad terfynol o £238,208.45 mewn perthynas ag ailddatblygu Underhill. Mae'r syrfewyr wedi cymeradwyo'r gwaith a wnaed.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo gwariant y taliad rownd derfynol o £238,208.45

**CO2311-11** **Polisi Tâl y Cynghorwyr**

Amlinellodd y Cadeirydd bwyntiau allweddol o'r polisi tâl blynyddol yn dilyn adolygiad. Trafodwyd a phleidleisiwyd ar y pwyntiau canlynol o'r adroddiad:-

- 3.3 Gofynnir i'r Cyngor benderfynu a fydd taliad o £52 y cynghorydd yn cael ei wneud neu a fydd y costau'n cael eu had-dalu'n llawn. **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r tâl uchod.
- 4.4 Gofynnir i'r Cyngor gadarnhau y bydd Cadeirydd pob Pwyllgor a grybwyllir uchod yn derbyn y taliad Rôl Uwch o £500 ac a fydd y tri taliad Rôl Uwch ychwanegol a ganiateir yn cael eu dyrannu yn 2023/24, a nodi pwy arall fydd yn derbyn y taliad.
  **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r tâl uchod.
- 5.6 Gofynnir i'r Cyngor gadarnhau fod yr opsiwn i dalu costau teithio a chynhaliaeth i'w gymeradwyo ar gyfer 2023/24.
  **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r tâl uchod.
- 6.3 Gofynnir i'r Cyngor gadarnhau fod yr opsiwn i dalu Iawndal Colled Ariannol i'w gymeradwyo ar gyfer 2023/24.
  **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r tâl uchod.
- 8.4 Gofynnir i'r Cyngor gadarnhau fod yr opsiwn i wneud taliad o £1,500 i'r Cadeirydd a £500 i'r Is-Gadeirydd i'w gymeradwyo ar gyfer 2023/24.
  **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r tâl uchod.
- 9.3 Gofynnir i'r Cyngor ystyried a yw'n dymuno cyflwyno lwfans presenoldeb a gwneud argymhelliad i'r Cyngor. Bydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol wedyn yn datblygu cynllun i'w gymeradwyo pe bai'r Cyngor yn cefnogi cyflwyno lwfans presenoldeb.
  **PENDERFYNWYD** peidio â chymeradwyo'r tâl uchod ar hyn o bryd ond i'w ystyried yn y dyfodol.

**CO2311-12**

**Cais i drosglwyddo £250 o Arddangosfeydd Blodau i Ddigwyddiadau Cymunedol ar gyfer Parti Nadolig Newton.**

Yn dilyn trafodaeth, cynigiwyd bod pob un o'r pedair ward yn derbyn £250 tuag at bartïon Nadolig. Bydd yr arian yn cael ei ddarparu o danwariant yn y Gyllideb Arddangosfeydd Blodau.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo trosglwyddiad o £1,000 o Arddangosfeydd Blodau i'r pedair ward (£250 yr un) er mwyn cyfrannu at bartïon Nadolig.

Gadawodd y Cynghorydd Emelia Cox y cyfarfod am 8.05pm.

**CO2311-13** **Ystyried Cais am Grant – Cymdeithas Masnachwyr y Mwmbwls – Coed Nadolig**

Cafwyd trafodaeth ar y gyllideb (cytundeb lefel gwasanaeth) a ddarparwyd ar gyfer masnachwyr y Mwmbwls a pham y gwnaed cais am goed Nadolig ar fyr rybudd cyn y Nadolig. Roedd peth

ansicrwydd hefyd ynghylch yr union swm o arian y gofynnwyd amdano oherwydd tanwariant o fewn y gyllideb.

**PENDERFYNWYD** dirprwyo taliad grant ar gyfer coed Nadolig i'r Clerc. Penderfynodd y cynghorwyr hefyd fod derbynneb/anfoneb yn cael ei chynhyrchu ar gyfer y coed a bod dadansoddiad mwy o wariant yn cael ei ddarparu gan fasnachwyr y Mwmbwls yn y dyfodol.

**CO2311-20**

**Cwestiynau i Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth a Chyfathrebu**

Oherwydd bod angen i'r Cynghorydd Rob Marshall adael y cyfarfod, cafodd rhif eitem **CO2311-20** ar yr agenda
ei ddwyn ymlaen i roi cyfle i gwestiynau gael eu gofyn iddo. Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau i'r Cynghorydd Marshall a gadawodd y cyfarfod am 8.16pm.

**CO2311-14** **Argymhellion gan Grŵp Llywio'r Parc Sglefrio**

Gohiriwyd y drafodaeth ynghylch argymhellion ynghylch Parc Sglefrio'r Mwmbwls wrth aros i'r wasg a'r cyhoedd gael eu gwahardd oherwydd sensitifrwydd masnachol yr eitemau dan sylw.

Wedi gwahardd y wasg a'r cyhoedd, daeth y drafodaeth i ben.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo argymhellion Grŵp Llywio'r Parc Sglefrio.

**CO2311-15** **Argymhelliad Gweithgor Canolfan Ostreme – Kerry Grabham**

Unwaith eto, gohiriwyd y drafodaeth ynglŷn ag argymhellion Gweithgor Canolfan Ostreme wrth aros i'r wasg a'r cyhoedd gael eu gwahardd oherwydd sensitifrwydd masnachol yr eitemau dan sylw.

Wedi gwahardd y wasg a'r cyhoedd, daeth y drafodaeth i ben.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo argymhellion Gweithgor Canolfan Ostreme.

**CO2311-16** **Argymhelliad gan y Pwyllgor Amgylcheddol – adroddiad ynghlwm**

**Argymhellwyd**, yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Amgylcheddol a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2023, y bydd cynghorwyr yn ystyried y trosglwyddiad a awgrymwyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol i dalu am orwariant.

**PENDERFYNWYD** derbyn yr argymhelliad uchod fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad a gyflwynwyd.

**CO2311-17**

**Argymhellion y Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfedd – adroddiad ynghlwm**

**Argymhellwyd**, yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfedd a gynhaliwyd ar 16 Hydref 2023, y bydd cynghorwyr yn ystyried yr argymhellion canlynol:-

4. **ARGYMHELLWYD:** cymeradwyo'r arfer presennol o wneud taliadau trwy ddebyd uniongyrchol ac archeb sefydlog gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol mewn cyfarfod o'r cyngor llawn am 12 mis arall.
5. **ARGYMHELLWYD:** rhoi grant o £1,150 ar gyfer Pêl-rwyd y Mwmbwls i gynorthwyo gyda ffioedd cwrt ar gyfer cyfranogwyr Blwyddyn 6 a Blwyddyn 8.
6. **ARGYMHELLWYD** rhoi grant o £425 i'r Grŵp Te Sul i gynorthwyo'r gwaith o atal pobl hŷn rhag mynd yn ynysig.

**PENDERFYNWYD** derbyn yr argymhelliad uchod.

**CO2311-18**

**Ethol yr aelod canlynol i'r pwyllgor canlynol**

**Y Cynghorydd Dr M O'Neill – Pwyllgor Amgylcheddol**

Cynigiwyd bod y Cynghorydd O'Neill yn cael ei ethol i'r Pwyllgor Amgylcheddol.

**PENDERFYNWYD** cytuno i'r cynnig uchod.

**CO2311-19**

**Cwestiynau i Gadeirydd y Pwyllgor Datblygu Cymunedol a Chymdeithasol**
Ni chafwyd unrhyw gwestiynau.

**CO2311-20**

**Cwestiynau i Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth a Chyfathrebu**
Rhoddwyd sylw i'r eitem hon ar ôl eitem **CO2311-13** ar yr agenda.

**CO2311-21**

**Cwestiynau i Gadeirydd y Pwyllgor Amgylcheddol**
Ni chafwyd unrhyw gwestiynau.

**CO2311-22**

**Cwestiynau i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfedd**
Ni chafwyd unrhyw gwestiynau.

**CO2311-23**

**Gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd**

Yn unol â darpariaethau Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, cynigiwyd bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r eitemau busnes dilynol oherwydd natur gyfrinachol y busnes a oedd i'w drafod.

**PENDERFYNWYD** oherwydd natur gyfrinachol y busnes i'w drafod, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod.

**Ataliwyd y Rheolau Sefydlog am 8.30pm er mwyn caniatáu i'r cyfarfod barhau y tu hwnt i ddwy awr.**

**CO2311-24**

**Cymeradwyo'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Personél**
Cafwyd trafodaeth ynghylch yr argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Personél.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Personél.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.44pm.